

NEWYDDION TAI LLOCHES

CYHOEDDI ENILLWYR Y GYSTADLEUAETH ARDDIO

Ym mis Awst cafodd enillwyr ein cystadleuaeth arddio gyntaf ar gyfer tenantiaid tai lloches yn unig eu cyhoeddi.

Cyflwynwyd tystysgrifau i'r enillwyr a'r sawl a ddaeth yn ail yn eu cynlluniau gan y Cynghorydd Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor am Gartrefi a Lleoedd, ynghyd ag aelodau'r panel beirniadu: Clive Davies, Is-gadeirydd Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili a thenant yn Rhymni, Bill Rothwell, garddwr o fri a thenant o dref Markham, a Liz Bayliss, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid.

Cafodd gwobrau'u rhoi i'r enillwyr hefyd gan gyflenwyr adeiladu o Ystrad Mynach D Emllyn Lloyd, Woodfields Nursery (hefyd yn Ystrad Mynach), a Chanolfan Arddio Caerffili.

Dywedodd y Cyng. Lisa Phipps, "Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gynnal cystadleuaeth arddio ar gyfer tenantiaid tai lloches yn unig; mae nifer a safon y ceisiadau a gawsom wedi bod yn uchel iawn. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran, a'u llongyfarch am eu hymdrechion a diolch i'r panel beirniadu am eu hamser yn y dasg ddigenfigen o ddewis ein henillwyr."

ENILLWYR A GWOBRAU ERAILL:

Yr ardd gymunedol orau

Gwobr gyntaf - Maesteg, Pentwyn-mawr

Ail wobwr - Cwrt y Cae Uchaf, Trecelyn

Trydedd wobwr - Tŷ Melin, Crospenmaen

Basged grog / potyn / cynhwysydd gorau

Gwobr cyntaf - Maureen Beddis, Llys Horeb

Ail wobwr - Pamela Gundy, Llys Horeb

Trydedd wobwr - Ernest Marshall,
Rhodfa'r Glasdir

Yr ardd orau (unigol)

Gwobr gyntaf - Ronald & Margaret Jones,
Yr Helyg

Ail wobwr - Helen Thomas, Yr Helyg

Trydedd wobwr - Susan Williams, Yr Helyg



TUDALEN POSAU

(ATEBION AR DUDALEN 8)

C	A	U	Dd	L	E	F	Y	Ff	I	D	O	F	E	Ng
O	Ff	O	D	Y	W	A	B	E	R	T	A	W	E	Y
N	A	C	M	H	D	L	G	L	C	S	M	I	S	H
W	G	Ng	A	Ll	S	R	W	A	R	Ff	T	G	W	U
Y	U	Ph	O	E	C	F	E	F	Y	D	O	O	G	Rh
U	B	I	Ch	I	R	R	C	A	Dd	G	N	N	E	W
Ch	N	P	A	M	G	Ff	I	U	C	U	Y	Y	Ff	I
I	Y	C	T	Y	Ll	H	I	O	R	Ng	P	D	P	Ph
Dd	R	U	B	C	E	T	Ff	L	Y	Ch	A	E	M	Y
A	B	I	Rh	Y	F	E	N	N	I	T	N	Rh	L	O
F	Ch	R	O	G	W	T	M	R	U	A	D	N	I	O
W	R	E	C	S	A	M	O	Dd	R	P	Y	Y	W	D
Rh	E	Dd	I	S	U	R	Ff	Th	Ll	H	Ll	L	U	L
O	Dd	Y	W	E	N	S	A	C	Ff	Y	M	G	Ph	S
A	T	F	S	O	G	P	A	L	Ch	W	E	Ng	R	A

Chwilair

Dewch o hyd i'r enwau lleoedd yng Nghymru.

Abertawe

Brynbuga

Caerdydd

Caerffili

Caergybi

Casnewydd

Conwy

Glynrhedynog

Penarth

Tonypandy

Wrecsam

Y Fenni

		1		3	7	8		4
5				4				
				2		7	3	
							1	
			5		2			3
			3	1		6		
7		2	4			3	8	6
	1			7	8			2

Sudoko

Mae rheolau'r gêm yn syml - rhaid i bob un o'r naw bloc gynnwys pob rhif (1-9) yn ei flychau. Dim ond unwaith ym mhob rhes, colofn neu flwch y gall pob rhif ymddangos.

BYDDWCH YN YMWWYBODOL O SGAMIAU

Yn anffodus, mae modd i unrhyw un fod yn destun sgam ar unrhyw adeg, ac mewn sawl achos fydd y dioddefwr ddim yn sylweddoli'i fod wedi bod yn destun sgam. Mae sgamiau'n gallu ymddangos mewn sawl math ac ar sawl ffurf. Mae'n bwysig eich bod chi'n wyliadwrus ar bob adeg. Os ydych chi'n ansicr, ymchwiliwch yn fanwl i'r mater neu ofyn am gyngor cyn i chi symud ymlaen. Mae help ar gael i chi, ond os ydych chi'n ansicr yna dywedwch na neu beidio â pharhau.

Os ydych chi wedi dioddef oherwydd sgam, y peth gwaethaf i chi'i wneud yw dim byd. Trwy wneud dim byd fydd y troseddwr ddim yn cael ei erlyn ac yn gallu parhau i dargedu dioddefwyr eraill. Trwyweithredu o ganlyniad i'ch anffawd, a rhoi gwybod am y sgam, efallai y byddwch chi'n helpu sicrhau



na fydd eraill yn dioddef yn yr un modd. Os bydd y sgam yn un ariannol, rhaid i chi gysylltu â'ch banc neu ddarparydd eich cerdyn yn syth a dweud sut rydych chi wedi cael eich effeithio. Bydd hyn yn galluogi'r banc neu ddarparydd cerdyn i weithredu'n gyflym ac atal rhagor o arian rhag gael ei golli. Efallai bydd yn rhoi cyfle iddyn nhw ymlid y troseddwr.

Mae modd i chi rhoi gwybod am y sgam i'r heddlu, ac mae modd cysylltu ag Action

Fraud drwy'r adnodd ar-lein ar eu gwefan **www.actionfraud.police.uk**. Mae modd gwneud hyn ar unrhyw adeg yn ystod y dydd neu'r nos. Fel arall, rhowch wybod am sgamiau drwy ffonio'r tîm **Action Fraud** ar **0300 123 2040**.

Os ydych chi'n pryderu am unrhyw un sy'n dod i'ch cartref neu gynllun tai lloches, peidiwch â rhoi mynediad iddyn nhw, a chysylltwch â'r **Tîm Tai Pobl Hŷn** ar **01443 811431**.

TALIADAU GWASANAETH

Mae llythyrau sy'n cynnwys manylion taliadau gwasanaeth eleni bellach wedi'u dosbarthu a dylai'r holl denantiaid fod wedi derbyn eu copi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm Tai Pobl Hŷn art **01443 811431**.

APÊL Y PABI - CYMORTH I DENANTIAID TAI LLOCHES

Mae tenantiaid o nifer o'n cynlluniau tai lloches wedi bod yn brysur iawn gyda'u gweill dros y misoedd diwethaf yn gwau a chrosio pabis i'w rhoi i'r Apêl Pabi eleni.

Apêl y Pabi yw ymgyrch codi arian mwyaf y Lleng Brydeinig Frenhinol sy'n digwydd bob blwyddyn yn ystod mis Tachwedd, sef cyfnod y Coffa.

Y cynlluniau a gymerodd ran mewn gwneud pabis oedd Yr Helyg (Bedwas), Heol Islwyn (Nelson), Llys Horeb (Trinant), Lle'r Olygfa (Abertyswg) a Threm y Coetir (Wattsville).



CYSTADLEUAETH COEDEN NADOLIG

Yn dilyn llwyddiant y llynedd, rydyn ni'n gyffrous i gyhoeddi bod ein cystadleuaeth ar gyfer 'y goeden Nadolig orau mewn lolfa gymunedol' yn dychwelyd unwaith eto!

Bydd angen i goed Nadolig fod yn barod erbyn 8 Rhagfyr i'w beirniadu'r wythnos ganlynol. Y beirniaid fydd aelodau o staff o'r adran Cartrefi Caerffili sydd tu

allan i'r Tîm Tai Pobl Hŷn. Bydd gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd ar gael. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 16 Rhagfyr.

Os oes gan eich cynllun ddiddordeb mewn cymryd rhan, rhowch wybod i'ch Swyddog Tai Lloches erbyn dydd Gwener 22 Tachwedd fan bellaf.



HOFFECH CHI HELPU I WELLA'R CYLCHLYTHYR TAI LLOCHES YNGHYD Â GWYBODAETH ERAILL RYDYN NI'N ANFON AT DENANTIAID?



Os hoffech chi, a bod gennych chi amser rhydd, yna mae arnom eich angen chi! Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ceisio penodi Adolygwyr y Gadair Freichiau newydd ledled y fwrdeistref sirol. Trwy ddod yn Adolygydd y Gadair Freichiau bydd gennych chi gyfle i rannu eich barn ar ein cylchlythyr

cyn ei anfon at bawb - ac mae modd gwneud hyn oll o gysur eich cartref eich hun.

Ar ben hynny, pob tro y byddwch chi'n llenwi holiadur, byddwch chi'n cael eich cynnwys i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill talebau siopa'r Stryd Fawr gwerth £25.

Am ragor o wybodaeth am sut i gymryd rhan, cysylltwch â Liz neu Gail ar 01443 811433/434. Fel arall, anfonwch neges destun at y Tîm Cyfranogiad Cymunedol i Denantiaid ar 07919 627530 neu anfon e-bost: CyfranogiadTenantiaid@caerffili.gov.uk

'DOLIG DIOGEL

Wrth i dymor y Nadolig agosáu, hoffen ni gymryd cyfle i gynnig cyngor diogelwch tân i chi'i ystyried wrth brynu a gosod eich addurniadau.

- Cadwch bob coridor a llwybr dianc yn glir ar bob adeg.
- Peidiwch â rhwystro drysau tân.
- Peidiwch â gorchuddio arwyddion hanfodol, er enghraifft arwyddion argyfwng, hysbysiadau tân, ac ati.

- Peidiwch â gorlwytho socedi trydan neu wifrau estyniad. Os byddwch chi'n defnyddio gwifren estyniad, sicrhewch fod y wifren ddim wedi'i gadael ar draws y llawr ac yn achosi perygl baglu.
- Peidiwch â gosod goleuadau ger deunydd fflamadwy, gan gofio i ddiffodd y goleuadau dros nos a phan fyddwch chi'n mynd allan.
- Peidiwch â defnyddio goleuadau allanol mewn ardal dan do, ac i'r gwrthwyneb.
- Osgowch ddefnyddio canhwylau.

- Osgowch addurniadau sydd wedi'u gwneud o bapur ysgafn neu gardbord.
- Peidiwch â gosod addurniadau ger ffynonellau gwres, er enghraifft ar ben rheiddiaduron. Os oes gennych chi wresogyddion symudol, osgowch eu gosod yn agos at ddodrefn neu addurniadau.

Siaradwch â'ch Swyddog Tai Lloches os hoffech chi gael cyngor pellach neu drefnu bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnal Gwiriad Diogelwch yn y Cartref.



ACTIVITIES ROUND UP

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae dros 200 o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau wedi'u cynnal ar gyfer tenantiaid tai lloches.

Yn ogystal â boreau coffi a gemau bingo rheolaidd, mae tenantiaid wedi bod yn dangos eu sgiliau creadigol mewn sesiynau celf a chreffft. Ar ben hynny, mae cynlluniau wedi mwynhau perfformiadau gan gorau ysgolion, sesiynau mwytho gan fyfyrwyr Coleg Gwent, a hyfforddiant ymwybyddiaeth cymorth cyntaf gan y Groes Goch Brydeinig. Mae Connect Gwent a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi darparu sawl sgwrs ynghylch atal troseddau a diogelwch tân yn ein cynlluniau tai lloches.

Mae gweithgareddau a digwyddiadau sydd wedi'u

cynllunio ar gyfer y dyfodol yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff ysgafn, sgysiaau ar atal cwmpo, dosbarthiadau TG a chlybiau garddio.

Rydyn ni hefyd yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant y prosiect rhwng cenedlaethau sy'n bodoli rhwng tenantiaid yng Nghwrt y Santes Gwladys ym Margod a disgyblion Ysgol Gyfun Heolddu sydd gerllaw, trwy ei gyflwyno i gynlluniau eraill.

TEITHIAU AR Y GWEILL:

Dydd Mercher, 13 Tachwedd -
McArthur Glen Designer Outlet, Pen-y-bont ar Ogwr

Dydd Mercher, 4 Rhagfyr -
Marchnad Nadolig Abertawe

Am ragor o wybodaeth am y teithiau, neu weithgareddau a digwyddiadau eraill sydd ar gael i denantiaid tai lloches, cysylltwch â'r Cydlynnydd Gweithgareddau, Victoria Roper, ar 01443 866,449 neu anfon e-bost i taipoblhyn@caerffili.gov.uk.



SAFON ANSAWDD TAI CYMRU - Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Mae ein rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn parhau i wneud cynnydd gwych o ran ein cynlluniau tai lloches.

Mae rhai cynlluniau wedi gweld gwaith sylweddol yn digwydd ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r holl denantiaid sydd wedi'u heffeithio am eu hamynedd a'u dealltwriaeth.

GWAITH GWELLA MEWNOL AC ALLANOL

Ers dechrau'r flwyddyn ariannol yma, mae gwaith mewnol ac allanol wedi'i gyflawni yn Nhŷ Mynyddislwyn, Lle Hyfryd ac Oaklands.

Rydyn ni'n parhau i gynnal gwaith mewn sawl cynllun, gan gynnwys Cwrt y Santes

Gwladys, Ystâd y Llwyn, Cwrt Alexandra, Lle'r Olygfa, Cwrt Tredegar a Heol Islwyn. Mae gwaith hefyd wedi dechrau'n ddiweddar yn Hafod y Bryn, a gwaith ar fin dechrau yn Rhodfa'r Glasdir.

Mae hefyd sawl cynllun lle bydd gwaith gwella'n cael ei

gynnal ar ôl 2020 o ganlyniad i raddfa'r gwaith sydd angen ei gyflawni. Mae cyfarfodydd bellach wedi'u cynnal gyda'r tenantiaid ym mhob un o'r cynlluniau er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw beth i'w ddisgwyl a phryd.

GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

Diolch i bawb am roi o'u hamser i gwrdd â'n Swyddogion yr Amgylchedd SATC i drafod y gwelliannau i'r ardaloedd awyr agored yn eich cynlluniau. O ganlyniad i'ch cyfraniad, mae gwelliannau amgylcheddol mewn cynlluniau tai lloches hefyd yn mynd rhagddo'n dda.

Mae gwelliannau amgylcheddol wedi'u cwblhau yn Llys Horeb, Maesteg, Cwrt Gwyddon a The Ranks. Mae gwaith yn parhau i ddigwydd er mwyn darparu gwelliannau amgylcheddol yn Y Glyn, Lle'r Olygfa, Santes Clare, Waunrhydd, Oaklands,

Cwrt Santes Gwladys, Ysgwyddgwyn, Glynsyfi, Ystâd y Llwyn 1 a 2, Lle Hyfryd, Tŷ Bedwellte,

Rhodfa'r Glasdir, Yr Helyg, Glyn Derw, Cwrt Alexandra, Tŷ Mynyddislwyn a Threm y Coetir.



ATEBION I'R POSAU AR DUDALEN 2

C	A	U	Dd	L	E	F	Y	Ff	I	D	O	F	E	Ng
O	Ff	O	D	Y	W	A	B	E	R	T	A	W	E	Y
N	A	C	M	H	D	L	G	L	C	S	M	I	S	H
W	G	Ng	A	L	S	R	W	A	R	Ff	T	G	W	U
Y	U	Ph	O	E	C	F	E	F	Y	D	O	O	G	Rh
U	B	I	Ch	I	R	R	C	A	Dd	G	N	N	E	W
Ch	N	P	A	M	G	Ff	I	U	C	U	Y	Y	Ff	I
I	Y	C	T	Y	L	H	I	O	R	Ng	P	D	P	Ph
Dd	R	U	B	C	E	T	Ff	L	Y	Ch	A	E	M	Y
A	B	I	Rh	Y	F	E	N	N	I	T	N	Rh	L	O
F	Ch	R	O	G	W	T	M	R	U	A	D	N	I	O
W	R	E	C	S	A	M	O	Dd	R	P	Y	Y	W	D
Rh	E	Dd	I	S	U	R	Ff	Th	L	H	L	L	U	L
O	Dd	Y	W	E	N	S	A	C	Ff	Y	M	G	Ph	S
A	T	F	S	O	G	P	A	L	Ch	W	E	Ng	R	A

9	2	1	6	3	7	8	5	4
5	3	7	8	4	9	2	6	1
6	4	8	1	2	5	7	3	9
2	5	3	7	9	6	4	1	8
1	6	4	5	8	2	9	7	3
8	7	9	3	1	4	6	2	5
7	9	2	4	5	1	3	8	6
3	1	6	9	7	8	5	4	2
4	8	5	2	6	3	1	9	7

Manylion Cyswllt Defnyddiol

Tîm Gwasanaethau i Bobl Hŷn

Ffôn: 01443 811431

E-bost: taipoblhyn@caerffili.gov.uk

SWYDDFEYDD TAI LLEOL:

Y Cymoedd Dwyreiniol

Ffôn: 01495 235974

E-bost: sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk

Cwm Rhymni Uchaf

Ffôn: 01443 873535

E-bost: sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk

Parc Lansbury

Ffôn: 02920 860917

E-bost: sdparclansbury@caerffili.gov.uk

Graig-y-rhaca

Ffôn: 02920 853050

E-bost: sdcgrraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

Adrodd am Atgyweiriad

Ffôn: 01443 864886

E-bost: dlopbe@caerffili.gov.uk

Ymholiadau SATC

Ffôn: 01443 866497

E-bost: ymholiadauSATC@caerffili.gov.uk

Cymorth Rhenti/Tenantiaeth

Ffôn: 01443 811450

E-bost: rhenti@caerffili.gov.uk

Argyfyngau allan o oriau

Ffôn: 01443 875500

Os ydych yn meddwl fod
nwy yn gollwng, ffoniwch
Wales and West Utilities
ar 0800 111 999